THOMAS, WILLIAM ('Gwilym Mai'; 1807 - 1872), bardd ac argraffydd

Enw: William Thomas
Ffugenw: Gwilym Mai
Dyddiad geni: 1807
Dyddiad marw: 1872
Rhiant: Ann Thomas
Rhiant: Thomas Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac argraffydd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: David James Bowen

Mab Thomas Thomas, melinydd, Llanelli a Chaerfyrddin, a'i wraig Ann. (Bu Ann Thomas farw 10 Mai 1828 yn 60 oed, a chanodd 'Gwilym Mai' englynion marwnad iddi; gweler *Seren Gomer*, 1828, 188.) Dilynodd ei grefft ym Merthyr Tydfil, Llanymddyfri, a Chaerfyrddin. Yn Llanymddyfri bu'n gysodydd yn swyddfa David Rice Rees a William Rees, ac yng Nghaerfyrddin gweithiodd yn swyddfa'r *Carmarthen Journal* gyda William Evans a Benjamin Jones. Yna sefydlodd ei fusnes ei hun yng Nghaerfyrddin. Yr oedd yn eisteddfodwr selog a gwobrwywyd ef yn eisteddfodau Abertawe (1846) a Chaerfyrddin (1852). Cyhoeddodd gasgliadau o'i farddoniaeth, *Meillion Mai*, 1849; *Blodau Dyffryn Tywi*, 1854, a hefyd lyfryn hyfforddi mewn cerdd dafod, *Clorian y Bardd*, 1850. Yn y rhagymadrodd i *Clorian y Bardd* dywed fod yr amser yn rhy gostus i'r beirdd fedru fforddio'r *Drych Barddonol* a gramadegau Robert Davies, Nantglyn, a Siôn Rhydderch. Bu'n un o Odyddion Caerfyrddin am 35 mlynedd, ac yn 1857 cyhoeddodd *Traethawd ar Odyddiaeth; ynghyd a nifer Cyfrinfaoedd Cymru*. Canodd awdl ar Odyddiaeth (*Meillion Mai*, 18). Yr oedd yn ddiacon yng nghapel Heol Awst, Caerfyrddin.

Awdur

Yr Athro David James Bowen

Ffynonellau

Seren Gomer, 1828, 188, 340

Yr Haul, 1872, 240

Baner ac Amserau Cymru, 22 Mai 1872

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

J. Ballinger a Ifano Jones, *Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

H. Blackwell, NLW MS 9274A: A Dictionary of Welsh Biography

G. Eyre Evans, *Lampeter* (1905)

Gweithiau

William Thomas, *Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol* (Caerfyrddin 1851)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q27972061

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu